# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 11 Mawrth 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Gynrychiolydd o Bwyllgor y Ty*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff cynrychiolydd o Bwyllgor y T ddatganiad ar y cynlluniau i gael tir ychwanegol ger safle adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ33142)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio tuag at wella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer yr anabl mewn cymunedau gwledig. (WAQ38180)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr Asesiad Cynhwysfawr o Berfformiad. (WAQ38181)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu llywodraeth leol. (WAQ38182)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa bryd y cyhoeddir rhestr o'r Cynghorwyr sydd wedi derbyn Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd. (WAQ38183)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dacsis sydd heb eu trwyddedu. (WAQ38184)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y gwaith o wella gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru. (WAQ38185)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y gwaith o alluogi cymunedau lleol o fewn llywodraeth leol yng Nghymru. (WAQ38186)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i adolygu llwyddiant y Llywodraeth Cabinet ar gyfer Cynghorau lleol (WAQ38187)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i adolygu effeithiolrwydd

craffu o fewn Cynghorau lleol. (WAQ38188)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi egluro yn nogfen contract Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yr amod bod dodrefn yn cael eu darparu ar gyfer gweithio o gartref. (WAQ33143)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi nodi faint yn union o'r contract £6 miliwn ar gyfer dodrefn fydd yn cael ei wario ar adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ33144)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi nodi, yn ôl lleoliad a maint y contract (yn fras), gyfanswm y dodrefn ar gyfer pob un o adeiladau'r Cynulliad. (WAQ33145)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi nodi'r rhesymau eraill dros yr angen am ddodrefn ac eithrio ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad, fel y nodir yn nogfen Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. (WAQ33146)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi nodi costau'r dodrefn fydd yn cael eu darparu ar gyfer gweithio o gartref. (WAQ33147)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pwy benderfynodd ar gynnwys dogfen gontract yr OJEC, a pha ymgynghori a fu ynghylch yr angen am y dodrefn sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon. (WAQ33148)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion faint o staff a fu'n gweithio i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad bob blwyddyn o 1999 hyd yma, gan roi manylion fesul pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. (WAQ33168)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth oedd cost lawn yr hysbysebion am swydd y Cwnsler Cyffredinol. (WAQ33179)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ym mha gyhoeddiadau yr hysbysebwyd swydd y Cwnsler Cyffredinol, faint oedd y gost ac a oes unrhyw gynlluniau i ail-hysbysebu'r swydd. (WAQ33208)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes ffigurau ar gael sy'n cymharu perfformiad y gwasanaeth iechyd yn Lloegr â Chymru o ran maint rhestrau aros ar gyfer pob math o driniaethau, ac, os felly, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r wybodaeth. (WAQ33149)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog

wedi'u cael gyda'r Gweinidog yn San Steffan ynghylch perfformiad y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. (WAQ33150)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau gyda'i chyd-weinidogion yn yr Alban ynghylch ceisio lleihau rhestrau aros yng Nghymru. (WAQ33151)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r gost hyd yma o gyflwyno byrddau iechyd lleol yng Nghymru a beth a ragwelir yw'r costau sydd ar ôl. (WAQ33152)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw cost flynyddol rhedeg byrddau iechyd lleol Cymru. (WAQ33153)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A yw’r Rhaglen Ddiwylliannol Drefol, a gyhoeddwyd gan Weinidog Diwylliant y DU ar 3 Mawrth 2004, yn cynnwys Cymru. (WAQ33211)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog Diwylliant y DU ynghylch sefydlu’r Rhaglen Ddiwylliannol Drefol. (WAQ33212)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A yw Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyfrannu unrhyw arian at y Rhaglen Ddiwylliannol Drefol. (WAQ33213)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Sawl dinas yng Nghymru sy'n gymwys i gyflwyno cais am arian oddi wrth y Rhaglen Ddiwylliannol Drefol. (WAQ33214)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all y Gweinidog esbonio penderfyniad Cyngor Llyfrau Cymru i argraffu fersiwn Iaith Gymraeg o'r Beibl yn Ne Korea yn hytrach nag yng Nghymru. (WAQ33210)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd lleihad yn yr arian loteri a roddir i Gyngor Chwaraeon Cymru yn effeithio ar adnoddau hamdden cymunedol. (WAQ33189)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cysylltiad rhwng diffyg gweithgarwch corfforol a chynnydd mewn gordewdra ymhlith plant. (WAQ33190)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynlluniau i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu Caerdydd fel Prifddinas yn 2005. (WAQ33191)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ran Cymru

yng Nghais y DU i gynnal y Gemau Olympaidd yn 2012. (WAQ33192)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gyfarfod diwethaf gyda Rheolwyr Amgueddfa Werin Cymru yn San Ffagan. (WAQ33193)

**Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad CADW yng Ngwaith Haearn Blaenafon. (WAQ33194)

**Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adnoddau cyfieithu a ddarperir gan CADW ar gyfer ymwelwyr yn ei safleoedd yng Nghymru. (WAQ33195)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A fydd y Gweinidog yn datgan faint o arian mae e wedi dyrannu i Culturnet Cymru am y blynyddoedd 2004/05 a 2005/06 a sut mae hyn yn cymharu â chyllideb y cywaith hwn am y flwyddyn 2003/04. (WAQ38196) **W**

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau pellach y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r grwpiau perthnasol er mwyn denu Gêm Derfynol Cwpan Ewropeaidd ar raddfa fawr i Stadiwm y Mileniwm. (WAQ33197)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Bêl-droed i Ferched yng Nghymru. (WAQ33198)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa asesiad sydd wedi'i wneud ar yr effaith a gaiff cau Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar swyddi yn Sir Gaerfyrddin. (WAQ33154)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a Chyngor Sir Caerfyrddin o ran dyfodol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. (WAQ33155)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Chomisiwn y Mileniwm o ran dyfodol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. (WAQ33156)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw gyfarfodydd o gwmpas y bwrdd â Chyngor Sir Caerfyrddin, Comisiwn y Mileniwm, yr Ymddiriedolaethwyr a charfanau allanol perthnasol ynghylch dyfodol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. (WAQ33157)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gydag un ai rheolwyr Kew Gardens neu reolwyr Gardd Fotaneg Genedlaethol yr Alban ynghylch dyfodol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. (WAQ33158)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gymorth ariannol y mae

Llywodraeth Cymru, neu unrhyw Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, yn ei roi i Amgueddfa Aberhonddu. (WAQ33159)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru, neu unrhyw Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, yn ei roi i Theatr Aberhonddu. (WAQ33160)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru, neu unrhyw Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad y mae hi'n gyfrifol amdano, yn darparu unrhyw gymorth ariannol tuag at hyrwyddo Amgueddfa Sir Faesyfed. (WAQ33161)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran cadw'r Auto Palace yn Llandrindod. (WAQ33162)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu unrhyw gymorth i yl y Gelli Gandryll. (WAQ33163)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu unrhyw gymorth ariannol ar gyfer hyrwyddo Blaenafon fel Tref Lyfrau. (WAQ33164)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion ynghylch ei drafodaethau ag undebau llafur a chyflogwyr mewn perthynas â chanolfannau galwadau yng Nghymru. (WAQ33165)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar agor Canolfannau Rhyngwladol Cymru yn San Francisco a Tokyo. (WAQ33174)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog Cymru ddarparu manylion ynghylch costau sefydlu lleoliad a chostau rhedeg Canolfannau Rhyngwladol Cymru. (WAQ33175)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion ynghylch ei drafodaethau â chyrff perthnasol ynghylch dyfodol canolfannau galwadau yng Nghymru. (WAQ33176)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog o ran hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol yn Sir Gaerfyrddin. (WAQ33177)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw effaith cau Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar gynlluniau'r Gweinidog ynghylch twristiaeth ddiwylliannol yn Sir Gaerfyrddin. (WAQ33178)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau â Phrif Gwnstabliaid ynghylch polisïau cyffuriau yng Nghymru, ac os ydyw, a wnaiff hi ddatganiad ar gynnwys y trafodaethau hynny. (WAQ33166)

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa rôl sydd gan Brif Weinidog Cymru yn y broses o benodi Cwnsler Cyffredinol newydd. (WAQ33199)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ganllawiau sydd ar gael ar gyfer Prif Weinidog Cymru, wrth benodi Cwnsler Cyffredinol newydd, ar wahaniaethu yn erbyn unigolion sy'n cefnogi hela llwynogod. (WAQ33200)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ganllawiau y mae'r Prif Weinidog wedi'u rhoi i'r Ysgrifennydd Parhaol ynghylch gwahaniaethu yn erbyn unigolion sy'n cefnogi hela llwynogod wrth benodi Cwnsler Cyffredinol newydd. (WAQ33201)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ganllawiau sydd ar gael ar gyfer Prif Weinidog Cymru, wrth benodi Cwnsler Cyffredinol, ynghylch gwahaniaethu yn erbyn seiri rhyddion. (WAQ33202)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ganllawiau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u rhoi i'r Ysgrifennydd Parhaol ynghylch gwahaniaethu yn erbyn seiri rhyddion wrth benodi Cwnsler Cyffredinol. (WAQ33203)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog gyhoeddi ei resymau dros wrthod penodi Gerald Elias fel Cwnsler Cyffredinol newydd. (WAQ33204)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gyngor y mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi'i roi i'r Prif Weinidog yn dilyn yr argymhellion a dderbyniodd mewn perthynas â phenodi Cwnsler Cyffredinol newydd. (WAQ33205)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa resymau y mae'r Prif Weinidog wedi'u rhoi dros wrthod penodi Gerald Elias yn Gwnsler Cyffredinol. (WAQ33206)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o ddylanwad y mae'r Prif Weinidog wedi'i gael ar y broses o benodi Cwnsler Cyffredinol newydd dros y 6 mis diwethaf. (WAQ33207)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** O dan ba awdurdod statudol yr oedd y Prif Weinidog yn gweithredu pan wrthododd benodi Cwnsler Cyffredinol newydd. (WAQ33209)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru amlinellu nifer y gweision sifil a oedd yn gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymhob blwyddyn ers iddo ymgymryd â'i swydd yn 2000. (WAQ33167)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddarparu manylion ynghylch costau a lleoliadau teithiau tramor Gweinidogion, Dirprwy Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ers iddo ymgymryd â'i swydd. (WAQ33169)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi manylion a gwybodaeth am y costau a wariwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar letygarwch ymhob blwyddyn ers 2000. (WAQ33173)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddarparu manylion ynghylch yr ymrwymiadau maniffesto y mae ei lywodraeth wedi'u gweithredu ers etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003. (WAQ33172)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddarparu manylion ynghylch yr ymrwymiadau maniffesto nad ydynt wedi'u gweithredu, a nodi pryd y disgwylir eu gweithredu. (WAQ33171)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru restru costau holl ymrwymiadau maniffesto y Blaid Lafur ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003. (WAQ33170)